OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1508 (Cy.157)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Etholiadau Lleol (Datganiad Derbyn Swydd) (Cymru) 2004

Wedi'i wneud	- -	*15 Mehefin 2004*
Yn dod i rym	- -	*1 Medi 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 83(1) a (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**), adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**), ac adran 52(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**3**), ac a freinir ynddo bellach i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**4**)), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Etholiadau Lleol (Datganiad Derbyn Swydd) (Cymru) 2004, a daw i rym ar 1 Medi 2004.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i bob awdurdod yng Nghymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "awdurdod" ("*authority*") yw—

(a) cyngor sir,

(b) cyngor bwrdeistref sirol, ac

(c) cyngor cymuned.

Ffurf ar ddatganiad derbyn swydd

3. Pan fydd awdurdod wedi mabwysiadu darpariaethau gorfodol cod ymddygiad enghreifftiol a wnaed o dan adran 50(2) o Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac sy'n gymwys i'r cyngor hwnnw, neu pan fydd darpariaethau gorfodol cod o'r fath yn gymwys i aelodau'r cyngor hwnnw yn unol ag adran 51(5)(b) o'r Ddeddf honno, rhaid i ddatganiad derbyn swydd —

(**1**) 1972 p.70.
(**2**) 1993 p.38.
(**3**) 2000 p.22.
(**4**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(a) aelod; a

(b) maer etholedig,

fod naill ai ar y ffurf Saesneg a geir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn neu ar y ffurf Gymraeg a geir yn Atodlen 2, neu ar ffurf ac iddi effaith debyg.

Dirymu gorchmynion

4. Dirymir y gorchmynion canlynol ar 1 Medi 2004 —

(a) Gorchymyn Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Datganiad Derbyn Swydd) 1990(**5**);

(b) Gorchymyn Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Datganiad Derbyn Swydd) 1990(**6**);

(c) Gorchymyn Etholiadau Lleol (Datganiad Derbyn Swydd) (Ffurflenni Cymraeg) 1991(**7**); a

(ch) Gorchymyn Etholiadau Lleol (Datganiad Derbyn Swydd) (Diwygio) (Cymru) 2001(**8**)).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**9**).

John Marek
Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

15 Mehefin 2004

(**5**) O.S. 1990/932.
(**6**) O.S. 1990/2473.
(**7**) O.S. 1991/1169.
(**8**) O.S. 2001/2963 (Cy. 245).
(**9**) 1998 p.38.